ClwydAlyn

Adran: Llywodraethu

## *Trosolwg o'r Swydd*

# Cyfreithiwr Eiddo Masnachol

- £58,900 y flwyddyn
- Lleoliad: V72, Llanelwy – Gogledd Cymru
- Oriau: 37 awr yr wythnos, Dydd Llun i ddydd Gwener – Patrwm gweithio hyblyg / – Gweithio hybrid
- Cymwysterau:
  Cyfreithiwr Eiddo Masnachol Cymwysedig gyda thystysgrif ymarfer gyfredol a dilys ac o leiaf 5 mlynedd o brofiad ar ôl cymhwyso













@ClwydAlyn

# Trosolwg o'r Swydd

# Cyfreithiwr Eiddo Masnachol

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Llywodraethu |
| **Cyflog:** | **£58,900** |
| **Lleoliad:** | Llanelwy a gweithio hybrid |
| **Oriau:** | 37 awr yr wythnos |
| **Patrwm gwaith:** | Dydd Llun – dydd Gwener |

**Pwrpas y swydd:** Fel ein Cyfreithiwr Eiddo Masnachol, byddwch yn chwarae rhan hollbwysig i gefnogi ClwydAlyn ddrwy ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol arbenigol ar y gyfraith yn ymwneud ag eiddo. Gan gydweithio'n agos gyda'n Timau Datblygu, Asesu, a Thai Fforddiadwy, bydd eich gwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein cenhadaeth "gyda'n gilydd i drechu tlodi."

Er bod profiad ym maes tai yn ddymunol, rydym yn awyddus i benodi unigolyn sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth ac sy'n dod â safbwynt unigryw i'r swydd. Dyma gyfle gwych i unigolyn brwdfrydig, llawn cymhelliant, sy'n awyddus i ehangu ei arbenigedd a datblygu mewn sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

Yn y swydd hon, byddwch yn cyflawni'r canlynol:

- **Arwain a Rheoli:** Goruchwylio ein Cyfreithiwr Eiddo a rhoi arweiniad, gan fentora a chynnig cymorth.
- **Asesu a blaenoriaethu Materion Cyfreithiol:** Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau cyfreithiol, gan benderfynu a ddylai achosion gael eu trin yn fewnol neu eu cyfeirio'n allanol.
- **Rheoli Cyllideb a Chontractau:** Rheoli'r gyllideb gyfreithiol a gweithredu fel y rheolwr contractau ar gyfer ein cyfreithwyr allanol, gan sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.
- **Datblygu Arbenigedd:** Byddwch yn cael cyfle i ymwneud â meysydd newydd o ran ymarfer cyfreithiol a datblygu eich gwybodaeth ymhellach er eich budd eich hun a ClwydAlyn.

Mae'r swydd hon yn gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy weithio fel aelod o dîm cefnogol sy'n cael ei arwain gan bwrpas, a chyfrannu at newid ystyrlon yn ein cymunedau.

Ymgeisiwch yn

# Gweithio i ClwydAlyn

Sefydlwyd ClwydAlyn yn 1978, ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n rheoli dros 6,500 o gartrefi ledled gogledd a chanolbarth Cymru. Gyda thîm ymroddedig o tua 800 staff, rydym yn gweithredu yn siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys, a Wrecsam, gan ddarparu amrywiaeth eang o atebion tai i fodloni gwahanol anghenion ein cymunedau.

Yn ClwydAlyn, rydym yn ymfalchïo mewn creu gweithle cyfeillgar, cynhwysol, sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd, lle mae pob aelod o'r tîm yn derbyn cymorth ac adnoddau i ffynnu. Fel Cyfreithiwr Eiddo Masnachol, byddwch yn chwarae rhan allweddol i wireddu ein cenhadaeth "gyda'n gilydd i drechu tlodi," gan helpu i greu cymunedau cryfach ledled gogledd Cymru drwy gynnig arweiniad a chymorth cyfreithiol arbenigol.

Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol lle bydd eich sgiliau yn cael eu gwerthfawrogi, a bydd eich datblygiad yn flaenoriaeth. Mae ein Tîm Dysgu a Datblygu ymroddedig yma i sicrhau eich bod yn cael cyfleoedd wedi'u teilwra i dderbyn hyfforddiant, mentora, a gwella eich gyrfa, gan eich helpu i ehangu eich arbenigedd a gwireddu eich nodau personol.

Mae eich rôl fel Cyfreithiwr Eiddo Masnachol yn rhoi cyfle i weithio ar brosiectau ystyrlon sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl, o reoli portffolios eiddo i gefnogi datblygiadau a mentrau tai fforddiadwy. Byddwch yn cael eich annog i arloesi a hynny gydag adnoddau a chefnogaeth tîm ymroddgar sy'n rhannu eich ymrwymiad i wneud gwahaniaeth.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cydbwyso bywyd gwaith a bywyd personol ac rydym yn cynnig pecyn buddion cynhwysfawr i gefnogi eich lles. Mae hyn yn cynnwys hyd at 8% o gyfraniadau pensiwn a mynediad at amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio gwella eich iechyd a sicrwydd ariannol.

Mae ClwydAlyn yn cynnig mwy na swydd yn unig; rydym yn cynnig cyfle i fod yn rhan o dîm lle mae eich gwaith yn cael effaith gadarnhaol a gwirioneddol ar fywydau pobl. Trwy ymuno â ni, byddwch yn cyfrannu at brosiectau sy'n darparu bwyd fforddiadwy, tai cynnes, a chymunedau llewyrchus—tra'n cael eich gwerthfawrogi a'ch cefnogi bob cam o'r ffordd.
Os ydych chi'n chwilio am swydd lle gallwch ddatblygu'n broffesiynol a gwneud gwahaniaeth go iawn, ClwydAlyn yw'r lle i chi. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni pethau anhygoel.

# Pam gweithio i ni – Buddion

Yn ogystal â sicrhau bod staff yn derbyn pryd am ddim bob dydd, mae'r buddion eraill yn cynnwys:

## Gwyliau Blynyddol

Rydym yn cynnig 25 diwrnod a gwyliau banc yn cynyddu i 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth.

Hyblygrwydd ychwanegol i brynu a gwerthu hyd at 5 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata).

## Buddion iechyd

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion iechyd gan gynnwys cynllun Beicio i'r Gwaith, cynllun Gofal Llygaid a Chynllun Arian Gofal Iechyd.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cwnsela cyfrinachol

## Pensiwn

Cynllun pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig gyda chyfraniadau cyfatebol (hyd at 8%) a budd-dal marwolaeth mewn gwasanaeth 3 gwaith eich cyflog.

## Tâl salwch uwch

Tâl salwch uwch ar ôl 1 mlynedd o wasanaeth yn codi i uchafswm o 3 mis o gyflog llawn, 3 mis hanner cyflog.

Mewn sefyllfaoedd difrifol sy'n bygwth bywyd, rydym yn cytuno ar gefnogaeth unigol.

## Cymorth Lles Penodol

Gwyddom fod meithrin lefelau uchel o les yn dda i bobl, y sefydliad a'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylcheddau gweithio cadarnhaol, hyblyg lle gall unigolion a chymunedau ffynnu.

Mae gennym Dîm Lles Gweithle penodol ac rydym yn darparu ystod eang o gefnogaeth a buddion sy'n gysylltiedig â lles i gefnogi lles meddyliol, corfforol a chymdeithasol da.

## Hysbyswyd TrACE

Rydym wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad Gwybodus ar gyfer Trawma a Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (TraCE).

Bydd dod yn hysbys i Trace nid yn unig o fudd i brofiadau bywyd ein preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth, ond bydd hefyd yn cefnogi lles, cynhwysiant staff a sut rydym yn cofleidio 'Byw ac Arwain ein Gwerthoedd'.

## Mae teuluoedd yn bwysig

Rydym yn cynnig 4 mis o dâl llawn a 5 mis o hanner tâl pan fyddwch ar Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu neu Rieni a Rennir.

Rydym hefyd yn cynnig amgylchedd gweithio ystwyth a hyblyg i gefnogi teuluoedd a gofalwyr.

## Lles a chefnogaeth ariannol

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gymorth gan gynnwys mynediad at gynilion a benthyciadau trwy undeb credyd, mynediad at gefnogaeth gan ein Tîm Cyngor Lles ac Arian mewnol a mynediad i ginio am ddim i bob aelod o staff.

## Swyddogaethau Craidd

1. **Cyngor Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth:**
   - Darparu cyngor a chymorth cyfreithiol arbenigol mewnol ar bob agwedd ar gyfraith eiddo a thir, gan gynnwys materion cynhennus.
   - Sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframweithiau cyfansoddiadol, cyfreithiol a rheoleiddio sy'n llywodraethu Cymdeithasau Tai.
2. **Trafodion Eiddo a Thir:**
   - Rheoli a goruchwylio sbectrwm eang o faterion yn ymwneud ag eiddo, gan gynnwys caffaeliadau, gwarediadau, lesoedd, trawsgludo, ac ymholiadau cynllunio.
   - Drafftio, adolygu a chwblhau dogfennau cyfreithiol fel contractau adeiladu, cytundebau taliadau gwasanaeth, a chytundebau trwsio eiddo.
3. **Arwain a Datblygu:**
   - Gweithredu fel rheolwr llinell i'r Cyfreithiwr Eiddo, gan annog datblygiad proffesiynol a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol.
   - Datblygu sgiliau swyddogion mewnol ar draws y sefydliad i wella eu dealltwriaeth o gyfraith eiddo a materion cysylltiedig.
4. **Cydweithio â Rhanddeiliaid a Rheoli'r Gyllideb:**
   - Adeiladu a chynnal perthynas â thimau mewnol, cyfreithwyr allanol, a phartneriaid eraill i gyflawni amcanion a rennir.
   - Gweithredu fel rheolwr contractau ar gyfer cyfreithwyr allanol a goruchwylio'r gwaith o reoli'r Gyllideb Gyfreithiol.

---

## Cyfrifoldebau Allweddol

- **Arbenigedd ym maes Cyfraith Eiddo:**
  - Ymdrin â gwerthu a phrynu eiddo, trafodion lesoedd a rhydd-ddaliadau, ailforgeisi, a threfniadau cynyddu cyfran rhan berchnogaeth.
  - Ymdrin â materion yn ymwneud â thir, ymholiadau cynllunio, materion cydymffurfio, a materion yn ymwneud â thrwsio eiddo neu fuddsoddiadau.
  - Sicrhau diwydrwydd dyladwy ar gyfer trafodion trawsgludo a drafftio dogfennau cyfreithiol angenrheidiol.
- **Cymorth Cyfreithiol Arbenigol:**
  - Rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â landlordiaid gan gynnwys 'Dim Mynediad' am resymau cydymffurfiaeth.
  - Rheoli heriau yn ymwneud ag eiddo.
- **Gwybodaeth, Datblygiad a Hyfforddiant:**
  - Rhannu gwybodaeth gyfreithiol hollbwysig yn y sefydliad i feithrin diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar wybodaeth.
  - Nodi newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddio sy'n effeithio ar y sefydliad a chynnig atebion rhagweithiol i fynd i'r afael â'r rhain.
- **Cydweithio Allanol:**
  - Gweithio gyda phartneriaid allanol i roi sylw i faterion sy'n dod i'r amlwg ym maes Tai Cymdeithasol, datblygu strategaethau ac atebion ar y cyd.
- **Rheoli'r Tîm:**
  - Goruchwylio a hyfforddi'r Cyfreithiwr Eiddo, gan sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel a chydymffurfiaeth.
  - Hybu amgylchedd tîm cefnogol sy'n rhoi gwerth ar werthoedd.
- **Goruchwylio Cyllideb:**
  - Rheoli cyllideb gyfreithiol y sefydliad yn effeithiol, gan gydbwyso effeithlonrwydd cost â darparu gwasanaeth o ansawdd.
- **Ymrwymiad i Werthoedd:**
  - Cynnal ac adlewyrchu gwerthoedd craidd ClwydAlyn sef, ymddiriedaeth, gobaith, a charedigrwydd, yn eich holl drafodion proffesiynol.

ClwydAlyn was formed in 1978 as a non-charitable Registered Social Landlord and now manages over 6,500 homes and employs 760 staff. We deliver a range of housing management related services, which includes care and supported housing, development, and repair and maintenance services across North Wales (Denbighshire, Flintshire, Conwy, Wrexham, Powys, Gwynedd and the Isle of Anglesey).





Our homes and services include social family housing and single person accommodation, supported living accommodation and specialist care and nursing services, low-cost home ownership, leasehold management services and intermediate and market rented housing. The Group's turnover is £64m.

We are an ambitious Housing Association and very driven by our values and mission. We believe that it is wrong that there is still so much inequality and poverty across our region, and we know that this impacts every aspect of people's lives. We took a strong position to end evictions four years ago and we use our money and influence to do all we can to support those experiencing poverty and to champion for change across our country.






I gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Rachel Storr-Barber a fydd yn hapus i ateb eich cwestiynau. Cyfeiriad e-bost Rachel yw rachel.storr-barber@clwydalyn.co.uk

neu

gallwch ffonio Rachel ar 07789067260

I ymgeisio, e-bostiwch eich CV atom recruitmentca@clwydalyn.co.uk

neu ewch i'n gwefan www.clwydalyn.co.uk/work-for-us

Dewch i sgwrsio gyda ni, rydym yn edrych ymlaen i glywed gennych!

POB LWC